Tŷ'r Cwmnïau

# Partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig ymddatod ac ansolfedd

GPLLP5 Mehefin 2016

Deddf Ansolfedd 1986

Mae'r canllaw hwn ar gael ar ffurfiau eraill gan gynnwys Braille, print mawr a thâp sain. Am fanylion pellach e-bostiwch ein hadran ymholiadau ar enquiries@companieshouse.gov.uk neu ffoniwch ein canolfan gyswllt ar 0303 1234 500.

## A yw'r canllaw hwn i chi?

Bydd y canllaw hwn yn berthnasol i chi:

- os ydych yn aelod o bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig
- os ydych yn gweithredu fel ymgynghorydd ar gyfer partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig

**Cynnwys**

**Cyflwyniad**

**Pennod 1**. Gwybodaeth gyffredinol am ansolfedd

**Pennod 2**. Trefniadau gwirfoddol

**Pennod 3**. “Yn nwylo Gweinyddwr” a “Gorchmynion gweinyddu”

**Pennod 4**. Derbynwyr

**Pennod 5**. Ymddatod gwirfoddol

**Pennod 6**. Ymddatod gorfodol

**Pennod 7**. Gwybodaeth bellach

Mae’r canllaw hwn yn ateb llawer o gwestiynau cyffredin ac yn cynnig gwybodaeth am sut i fynd ati i gwblhau rhai o’r dogfennau ffeilio mwyaf cyffredin yn y maes yma. Ni chafodd ei ddrafftio gyda thrafodion anarferol na chymhleth mewn golwg. Mae’n bosibl y bydd angen gofyn am gyngor proffesiynol arbenigol mewn achosion o’r fath.

Noder: lle nad oes fersiynau dwyieithog o’r ffurflenni ar gael, bydd y dolenni’n mynd â chi i’r ffurflen Saesneg berthnasol. Bydd dolenni i wefannau allanol yn Saesneg hefyd.

## Cyflwyniad

Mae’r canllaw hwn yn cynnig gorolwg sylfaenol o’r drefn ansolfedd ac ymddatod a gwybodaeth fanylach am y dogfennau y mae angen eu cyflwyno i’r Cofrestrydd Cwmnïau. Mae’n crynhoi rhai o’r rheolau sy’n berthnasol i drefniadau gwirfoddol corfforaethol, moratoria, gorchmynion gweinyddu, derbynwyr, ymddatod gwirfoddol, ymddatod gorfodol a rheoliadau’r Gymuned Ewropeaidd.

Gall Tŷ’r Cwmnïau helpu gydag ymholiadau am gyflwyno dogfennau i’r Cofrestrydd. Dylid cyfeirio ymholiadau eraill at y Gwasanaeth Ansolfedd. Mae gweithrediadau ansolfedd yn arwain at achosion llys yn aml, ac am hynny, mae’n bosibl y bydd angen i ymarferwyr drefnu cyfarfodydd a pharatoi adroddiadau statudol. Mae’n bwysig nodi nad oes angen anfon yr holl wybodaeth yma at y Cofrestrydd.

Mae’r gofynion yn gymhleth, ac ni chewch yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch i ddirwyn partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig anhydal i ben yn y canllaw hwn. Rydyn ni’n eich cynghori chi i ofyn am gyngor proffesiynol annibynnol os ydych chi’n amau bod eich partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn anhydal, neu os yw hynny’n debygol o ddigwydd.

Ar ôl cychwyn gweithrediadau ansolfedd, caiff ymarferydd ansolfedd awdurdodedig neu berson proffesiynol arall ei benodi i reoli materion y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig fel rheol.

Gallwch ddarllen y ddeddfwriaeth berthnasol yn:

- Neddf Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig 2000
- Deddf Ansolfedd 1986 (fel y’i diwygiwyd)
- Rheolau Ansolfedd 1986 (fel y’u diwygiwyd)
- Deddf Menter a Diwygio Rheoleiddiol 2013
- Rheoliadau Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig 2009 sy’n cymhwyso rhannau o Ddeddf Cwmnïau 2006 a Deddf Ansolfedd 1986 i bartneriaethau atebolrwydd cyfyngedig

**Pennod 1**
**Gwybodaeth gyffredinol am ansolfedd**

### 1. Beth yw gweithrediadau ansolfedd?

Dyma’r camau ffurfiol a gymerir i ddelio â dyledion partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig. Mae sawl math o weithrediadau ansolfedd yn bodoli ar gyfer partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig. Mae’r llyfryn hwn yn ymdrin â phob un ohonynt.

### 2. Oes rhaid i bob partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig ddilyn gweithrediadau ansolfedd cyn cael ei diddymu?

Nac oes. Os oes gan y Cofrestrydd le i gredu nad yw partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn cynnal busnes nac yn gweithredu, gall enw’r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig cael ei ddileu o’r gofrestr a’i diddymu heb fynd drwy’r drefn ymddatod. Caiff partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig nad yw’n masnachu wneud cais i Dŷ’r Cwmnïau am i’w henw gael ei ddileu o’r gofrestr. **Nid yw’r drefn hon yn ddewis arall yn lle gweithrediadau ansolfedd ffurfiol.**

### 3. A gaiff unrhyw un oruchwylio gweithrediadau ansolfedd?

Rhaid i bob datodydd, gweinyddwr, derbynnydd gweinyddol a goruchwylydd a gychwynnodd yn ei swydd ar 29 Rhagfyr 1986 neu ers hynny, fod yn ymarferydd ansolfedd awdurdodedig.

Nid oes rhaid i reolwyr derbyn a benodir o dan y Ddeddf Cyfraith Eiddo fod wedi eu hawdurdodi.

Gall ymarferwyr ansolfedd gael eu hawdurdodi gan:

- Gymdeithas Siartredig y Cyfrifwyr Ardystiedig
- Cymdeithas yr Ymarferwyr Ansolfedd
- Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Lloegr a Chymru
- Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Iwerddon
- Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig yr Alban
- Cymdeithas y Gyfraith
- Cymdeithas Cyfraith yr Alban
- yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesedd a Sgiliau

### 4. Beth sy’n digwydd i aelodau partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig anhydal?

Mae gan y datodydd, y derbynnydd gweinyddol, y gweinyddwr neu’r Derbynnydd Swyddogol ddyletswydd i gyflwyno adroddiad ar ymddygiad pob aelod oedd mewn swydd yn ystod y tair blynedd olaf y buodd y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn masnachu i’r Ysgrifennydd

Gwladol. Rhaid i’r Ysgrifennydd Gwladol benderfynu a fyddai ceisio gorchymyn gwahardd yn erbyn aelod o fudd i’r cyhoedd.

Mae’r mathau o ymddygiad mwyaf cyffredin sy’n esgor ar adroddiad yn cynnwys:

- parhau i fasnachu er bod y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn anhydal
- methu â chadw cofnodion cyfrifeg priodol
- methu â pharatoi a ffeilio cyfrifon neu gyflwyno ffurflenni i Dŷ’r Cwmnïau
- methu â chyflwyno ffurflenni i’r Goron neu dalu unrhyw dreth sy’n ddyledus i’r Goron

## Pennod 2
## Trefniadau gwirfoddol

### 1. Beth yw trefniant gwirfoddol?

Trefniant gwirfoddol yw sefyllfa lle bo partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn gwneud cytundeb â’i chredydwyr drwy gynnig ‘cyfrandalu i fodloni ei dyled’ neu ‘gynllun i drefnu ei materion’. Mae hyn yn golygu trefniant, wedi ei gymeradwyo gan y llys, lle bo’r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig wedi dod i gytundeb ffurfiol â’i chredydwyr ar delerau i glirio’i dyledion.

### 2. Pwy gaiff gynnig trefniant gwirfoddol?

Gall y bobl ganlynol gynnig trefniant gwirfoddol:

- y gweinyddwr, os oes gorchymyn gweinyddu
- y datodydd, os yw’r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn cael ei dirwyn i ben
- y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig ei hun, o dan amgylchiadau eraill

### 3. Pwy sy’n ystyried y cynnig?

Pan fydd y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig ei hun yn cynnig y trefniant, bydd y person a enwebwyd i oruchwylio ei weithrediad yn cyflwyno adroddiad i’r llys cyn pen 28 diwrnod. Yn yr adroddiad, bydd yn nodi a yw’n credu y dylid galw cyfarfod o’r credydwyr. Pan fydd y gweinyddwr neu’r datodydd yn cynnig y cytundeb, bydd y person a enwebwyd yn cyflwyno adroddiad sy’n nodi a ddylid galw cyfarfod o’r aelodau a chyfarfod o gredydwyr y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig.

### 4. Sut caiff y trefniant gwirfoddol ei gymeradwyo?

Bydd y cyfarfod a drefnir gan y person a enwebwyd yn penderfynu a ddylid cymeradwyo’r trefniant gwirfoddol wedi ei addasu neu heb ei addasu ond yn amodol ar rai cyfyngiadau. Rhaid i’r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig gymeradwyo unrhyw addasiadau. Bydd y trefniant wedyn yn cyfrwymo pob credydwr a gafodd rybudd o’r cyfarfod ac yr oedd ganddo

hawl i bleidleisio. Bydd yr holl gredydwyr a gafodd rybudd o'r cyfarfod wedi eu cyfrwymo gan delerau'r trefniant.

**5. Beth sy'n digwydd pan gaiff y trefniant ei gymeradwyo?**

Os bydd cyfarfod o'r credydwyr yn cymeradwyo'r trefniant gwirfoddol, yna daw'r person a enwebwyd, neu rywun yn ei le, yn oruchwylydd y trefniant.

**6. Beth sydd angen ei anfon i Dŷ'r Cwmnïau?**

Rhaid i'r goruchwylydd gyflwyno copi o adroddiad cadeirydd y cyfarfod.

O leiaf unwaith bob 12 mis, rhaid i'r goruchwylydd anfon cyfrif o'r derbyniadau a'r taliadau, ynghyd ag adroddiad ar gynnydd, at bob buddiolwr, gan gynnwys y Cofrestrydd.

Rhaid i'r goruchwylydd roi gwybod i'r Cofrestrydd cyn pen 28 diwrnod ar ôl cwblhau'r trefniant. Rhaid hysbysu'r Cofrestrydd os caiff y trefniant ei ohirio neu ei ddileu.

Yn sgil gweithredu Rheolau Ansolfedd (Diwygio) 2010, a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2010, bydd Tŷ'r Cwmnïau yn pennu'r ffurflenni ansolfedd canlynol o fewn Rheolau'r Cofrestrydd am y tro cyntaf. Rhaid ffeilio'r ffurflenni isod gyda'r Cofrestrydd, ar gyfer pob trefniant gwirfoddol corfforaethol.

Rhaid defnyddio'r ffurflenni hyn gyda'r diwygiadau priodol (os yw'n berthnasol) ar gyfer unrhyw drefniadau a ddechreuodd ar 5 Ebrill 2010 neu cyn hynny:

.

| **Teitl y ffurflen** | **Rhif** |
|---|---|
| Hysbysiad i'r cofrestrydd cwmnïau i roi grym i drefniadau gwirfoddol | 1.1 |
| Hysbysiad i'r cofrestrydd cwmnïau i ddileu neu atal trefniadau gwirfoddol | 1.2 |
| Hysbysiad i'r cofrestrydd cwmnïau am adroddiad y goruchwylydd ar gynnydd | 1.3 |
| Hysbysiad i'r cofrestrydd cwmnïau am gwblhau neu derfynu trefniadau gwirfoddol | 1.4 |

**Sylwer**: Mae'r ffurflenni hyn ar gael i'w dadlwytho o wefan Tŷ'r Cwmnïau

**Pennod 3**
**'Yn nwylo Gweinyddwr' a 'Gorchmynion Gweinyddu'**

Daeth y gyfraith bresennol ynglŷn â gweinyddu i rym ar 1 Hydref 2005, yn unol ag Offeryn Statudol 2005 Rhif 1989, Rheoliadau Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig (Diwygiad) 2005. O dan y drefn hon, caiff partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig ei disgrifio fel un sydd 'yn nwylo'r gweinyddwr' - o dan yr hen drefn, byddai'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig wedi bod yn destun 'gorchymyn gweinyddu'.

Amlinelliad cryno o'r broses weinyddu a geir isod: nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith.

**1. Beth yw 'yn nwylo gweinyddwr'?**

Mae hyn yn digwydd pan fo rhywun, sef 'y gweinyddwr', yn cael ei benodi i reoli materion, busnes ac eiddo'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig er lles y credydwyr.

Rhaid i'r person a benodir fod yn ymarferydd ansolfedd a chanddo statws swyddog llys (dim ots a gafodd ei benodi gan y llys neu beidio).

Diben y gweinyddu fydd:

- achub y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig fel busnes gweithredol
- sicrhau gwell pris am asedau'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig neu, sylweddu eu gwerth yn fwy ffafriol i'r credydwyr yn gyffredinol nag a fyddai'n bosibl trwy ddirwyn y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig i ben (heb iddi fynd i ddwylo gweinyddwr yn gyntaf)
- o dan rai amgylchiadau, sylweddu gwerth yr eiddo er mwyn trosglwyddo'r elw i un neu ragor o'r blaen-gredydwyr

**2. Sut bydd y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn mynd i ddwylo'r gweinyddwr?**

Bydd y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn mynd 'i ddwylo gweinyddwr' pan ddaw penodiad gweinyddwr i rym. Gellir penodi gweinyddwr drwy:

- orchymyn gweinyddu gan y llys
- deiliad arwystl nofiol
- yr aelodau

Rhaid i'r gweinyddwr gyflawni ei swyddogaethau mor fuan ac effeithlon ag sy'n rhesymol bosibl.

**3. Beth yw effaith ar bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig bod yn nwylo gweinyddwr?**

Pan fydd y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn mynd i ddwylo'r gweinyddwr:

- caiff unrhyw ddeisebau dirwyn i ben sy'n disgwyl dyfarniad eu rhoi heibio neu eu hatal
- ceir moratoriwm ar unrhyw drefniadau ansolfedd neu drefniadau cyfreithiol eraill
- os penodwyd derbynnydd gweinyddol, rhaid iddo ildio'i swydd
- os penodwyd derbynnydd ar gyfer rhan o eiddo'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig, rhaid iddo ildio'i swydd (os yw'r gweinyddwr yn gofyn am hynny)

**4. Pwy sydd angen gwybod bod y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn nwylo gweinyddwr?**

Rhaid i'r gweinyddwr roi gwybod i'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig ei hun ac i bob un o'i chredydwyr am ei benodiad cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl. Rhaid iddo gyhoeddi hysbysiad am ei benodiad yn y *Gazette* ac mewn papur newydd ym mhrif ardal fusnes y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig hefyd.

**Beth yw'r Gazette?**

Gwasg ei Mawrhydi sy'n cyhoeddi'r *Gazette* ac mae'n cyhoeddi rhybuddion a hysbysiadau statudol o bob math. Fe'i cyhoeddir bob dydd. Y *London Gazette* a olygir yn achos partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig a gofrestrwyd yn Lloegr a Chymru.

Caiff hysbysiadau a gyhoeddir gan y Cofrestrydd Cwmnïau ar gyfer Lloegr a Chymru eu cynnwys yn Atodlen y *London Gazette* sy'n rhestru Hysbysiadau Swyddogol ym maes y Gyfraith Cwmnïau. Fe'i cyhoeddir ar ffurf *microfiche*. Fe welwch chi gopïau yn stafelloedd chwilio Tŷ'r Cwmnïau a restrir yng nghefn y llyfryn hwn (ac eithrio rhai'r Alban). Mae copïau gan rai o'r llyfrgelloedd cyhoeddus mwyaf hefyd. Ewch i www.gazettes-online.co.uk i gael rhagor o wybodaeth.

Rhaid i'r gweinyddwr gyflwyno hysbysiad am ei benodiad i'r Cofrestrydd hefyd.

Tra bo'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn nwylo'r gweinyddwr, rhaid i bob dogfen fusnes a gyhoeddir gan, neu ar ran, y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig, neu gan y gweinyddwr, ddatgan enw'r gweinyddwr a'r ffaith ei fod yn rheoli materion, busnes ac eiddo'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig.

**5. Beth sy'n digwydd yn ystod y broses weinyddu?**

Bydd y gweinyddwr yn gofyn i'r bobl berthnasol (e.e. swyddog neu weithiwr i'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig) am ddatganiad o faterion y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig.

Cyn pen dim mwy nag 8 wythnos ar ôl i'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig fynd i ddwylo'r gweinyddwr, rhaid iddo lunio datganiad sy'n disgrifio'i gynigion i gyflawni dibenion y gweinyddu neu'n egluro pam nad oes modd eu cyflawni. Gall y cynigion gynnwys trefniadau gwirfoddol, cyfaddawd neu drefniadau gyda'r credydwyr neu'r aelodau.

Rhaid anfon y datganiad sy'n nodi'r cynigion:

- i Dŷ'r Cwmnïau
- at bob un o gredydwyr y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig ynghyd â gwahoddiad i gyfarfod cychwynnol o'r credydwyr os bwriedir cynnal un
- at bob aelod o'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig, oni bai bod y gweinyddwr yn cyhoeddi hysbysiad sy'n nodi y bydd yn rhoi copi rhad ac am ddim i unrhyw aelod o'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig sy'n cyflwyno cais ysgrifenedig am gopi o'r datganiad

Busnes cyfarfod cychwynnol y credydwyr fydd cymeradwyo'r datganiad o gynigion (gyda diwygiadau neu hebddynt). Yn sgil y cyfarfod cychwynnol gall y gweinyddwr:

- gynnal cyfarfodydd pellach o'r credydwyr
- ffurfio pwyllgor credydwyr
- ymdrin â materion drwy ohebiaeth â'r credydwyr

Rhaid i'r gweinyddwr roi gwybod i'r aelodau am unrhyw ddiwygiadau i'r cynigion yn sgil cyfarfod y credydwyr.

Rhaid rhoi gwybod i'r Cofrestrydd Cwmnïau a'r llys am unrhyw benderfyniadau a wneir yng nghyfarfodydd y credydwyr.

**6. Pryd daw'r gweinyddu i ben?**

Mae sawl ffordd y gall y gweinyddu ddod i ben.

Gall y gweinyddu ddod i ben yn awtomatig wrth i gyfnod gwasanaethu'r gweinyddwr ddod i ben. Daw penodiad y gweinyddwr i ben ar ôl blwyddyn, ond gellir estyn hyn gyda chydsyniad y credydwyr neu'r llys. Rhaid rhoi gwybod i'r Cofrestrydd am unrhyw estyniad.

Gall gweinyddwr a benodwyd o dan orchymyn llys wneud cais i'r llys am derfynu'r gweinyddu os yw'n credu nad oes modd cyflawni diben y gweinyddu neu na ddylai'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig fod wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwr, neu os bydd cyfarfod o'r credydwyr yn mynnu ei fod yn gwneud cais o'r fath. Bydd y llys yn rhyddhau'r gorchymyn gweinyddu a rhaid i'r gweinyddwr roi gwybod i'r Cofrestrydd.

Gall gweinyddwr a benodwyd gan ddeiliaid arwystl nofiol neu gan aelodau'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig derfynu'r gweinyddu pan fo diben y gweinyddu wedi ei gyflawni'n ddigonol. Rhaid i'r gweinyddwr ffeilio'r hysbysiad gyda'r llys a'r Cofrestrydd.

Gall y gweinyddu ddod i ben os bydd credydwr yn gwneud cais i'r llys gan honni cymhelliad amhriodol ar ran y person a benododd y gweinyddwr neu a wnaeth gais i'r llys am orchymyn gweinyddu. Rhaid i'r gweinyddwr anfon copi o'r gorchymyn at y Cofrestrydd cyn pen 14 diwrnod ar ôl i'r gorchymyn gael ei wneud.

Gall y gweinyddu ddod i ben wrth i'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig symud ymlaen i drefn dirwyn i ben yn wirfoddol drwy gais y credydwyr. Gall hyn ddigwydd lle bo'r gweinyddwr o'r farn bod pob credydwr gwarantedig yn debyg o gael ei dalu ac y bydd dosbarthiad ymhlith y credydwyr anwarantedig, os yw hynny'n berthnasol. Rhaid i'r gweinyddwr hysbysu'r Cofrestrydd, gan anfon copïau i'r llys ac at bob credydwr. Yna, caiff y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig ei dirwyn i ben fel pe bai penderfyniad i ddirwyn i ben yn wirfoddol wedi cael ei fabwysiadu ar y diwrnod y cofrestrwyd yr hysbysiad yn Nhŷ'r Cwmnïau.

Gall y gweinyddu ddod i ben wrth i'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig symud ymlaen i ymddatod. Gall hyn ddigwydd os yw'r gweinyddwr o'r farn nad oes gan y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig eiddo i'w ddosbarthu ymhlith ei chredydwyr. Rhaid i'r gweinyddwr hysbysu'r Cofrestrydd, y llys a phob un o'r credydwyr.

Caiff y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig ei datod dri mis ar ôl dyddiad cofrestru'r ffurflen gyda Thŷ'r Cwmnïau, oni wneir gorchymyn, ar ffurf cais i'r llys, am estyn neu ohirio'r cyfnod neu atal yr ymddatod.

Rhaid hysbysu'r Cofrestrydd am y gorchymyn.

**7. Pa ffurflenni y dylid eu defnyddio?**

Yn sgil gweithredu Rheolau Ansolfedd (Diwygio) 2010, a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2010, bydd Tŷ'r Cwmnïau yn pennu'r ffurflenni ansolfedd canlynol o fewn Rheolau'r Cofrestrydd am y tro cyntaf. Rhaid ffeilio'r ffurflenni isod gyda'r Cofrestrydd ar gyfer pob achos yn nwylo'r gweinyddwr.

Rhaid defnyddio'r ffurflenni hyn gyda'r diwygiadau priodol (os yw'n berthnasol) ar gyfer unrhyw gwmnïau a aeth i ddwylo'r gweinyddwr ar 5 Ebrill 2010 neu cyn hynny:

| **Teitl y ffurflen** | **Rhif** |
|---|---|
| Hysbysiad am benodi gweinyddwr | 2.12B(CH) |
| Hysbysiad am ddatganiad o faterion | 2.16B |
| Datganiad o gynigion y gweinyddwr | 2.17B |
| Hysbysiad am ymestyn cyfnod | 2.18B(CH) |
| Hysbysiad am gymeradwyaeth dybiedig i gynigion | F2.18 |
| Datganiad o gynigion diwygiedig y gweinyddwr | 2.22B(CH) |
| Hysbysiad am ganlyniad cyfarfod o'r credydwyr | 2.23B(CH) |
| Adroddiad y gweinyddwr ar gynnydd | 2.24B |
| Tystysgrif [ddiwygiedig] am gyfansoddiad pwyllgor o gredydwyr | 2.26B(CH) |
| Hysbysiad am orchymyn i ymdrin ag eiddo ag arwystl | 2.28B |
| Hysbysiad am derfynu gweinyddiad yn awtomatig | 2.30B(CH) |
| Hysbysiad am estyn cyfnod gweinyddu | 2.31B |
| Hysbysiad am derfynu gweinyddiad | 2.32B(CH) |
| Hysbysiad am orchymyn llys yn terfynu gweinyddiad | 2.33B |
| Hysbysiad am symud o weinyddu i ymddatod gwirfoddol gan y credydwyr | 2.34B |
| Hysbysiad am symud o weinyddu i ymddatod | 2.35B |
| Hysbysiad i'r cofrestrydd cwmnïau mewn perthynas â dyddiad ymddatod | 2.36B |
| Hysbysiad am fwriad gweinyddwr i ymddiswyddo | 2.37B |
| Hysbysiad am ymddiswyddiad gweinyddwr | 2.38B(CH) |
| Hysbysiad bod gweinyddwr wedi gadael ei swydd | 2.39B |
| Hysbysiad am benodiad gweinyddwr newydd/ychwanegol | 2.40B |

**Sylwer**: Mae'r ffurflenni hyn ar gael i'w dadlwytho o wefan Tŷ'r Cwmnïau.

## Pennod 4
## Derbynwyr

**1. Beth yw derbynnydd?**

Mae dau fath o dderbynnydd a bydd eu pwerau'n amrywio yn ôl amodau eu penodiad.

Mae derbynnydd gweinyddol yn berson sy’n derbyn neu’n rheoli’r cyfan neu ran sylweddol, o eiddo’r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig ac a benodir gan neu ar ran deiliaid unrhyw rai o ddyledebion y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig sydd wedi eu gwarantu trwy arwystl nofiol. Mae ganddo’r pŵer i werthu (neu sylweddu mewn ffordd arall) yr asedau sy’n dod o fewn cwmpas yr arwystl nofiol, a sianelu’r elw i’r ddyled sy’n daladwy i ddeiliad yr arwystl.

Gellir penodi derbynwyr nad ydynt yn rhai gweinyddol o dan amgylchiadau eraill. Er enghraifft, o dan y pwerau a gynhwysir mewn offeryn neu ddogfen sy’n creu arwystl dros eiddo’r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig, gellir penodi derbynnydd neu reolwr nes i’r ddyled gael ei bodloni’n llwyr. Penodir y derbynwyr hyn o dan Ddeddf Cyfraith Eiddo 1925.

### 2. Pwy sy’n hysbysu am benodi derbynnydd?

Y person sy’n penodi’r derbynnydd gweinyddol, y derbynnydd neu’r rheolwr, neu sy’n trefnu’r penodiad o dan bwerau offeryn, sy’n gyfrifol am roi gwybod i’r Cofrestrydd, a hynny cyn pen saith diwrnod ar ôl ei benodi. Mae angen cyflwyno Ffurflen LL RM01 am bob arwystl unigol a gofrestrir yn Nhŷ’r Cwmnïau ac y penodir y derbynnydd ar ei gyfer, dim ots a yw’r penodiad yn ymwneud â rhan o eiddo’r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig neu ei holl asedau. Rhaid i’r dderbynnydd gweinyddol gyhoeddi hysbysiad o’i benodiad yn y *Gazette* ac mewn papur newydd priodol hefyd.

Pan fydd y derbynnydd gweinyddol, y derbynnydd neu’r rheolwr yn rhoi’r gorau i weithredu, rhaid iddo roi gwybod i’r Cofrestrydd trwy gyflwyno Ffurflen LL RM02.

**Sylwer:** Rhaid ffeilio Ffurflenni LL RM01 ac LL RM02 ar wahân ar gyfer pob arwystl unigol a gofrestrir yn Nhŷ’r Cwmnïau y penodir derbynnydd ar ei gyfer ac/neu y mae derbynnydd yn peidio â gweithredu drosto, dim ots a yw’r penodiad yn ymwneud â rhan o’r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig neu ei holl asedau.

### 3. Beth mae’n rhaid i’r derbynnydd ei anfon i Dŷ’r Cwmnïau?

Cyn pen tri mis ar ôl ei benodi, rhaid i dderbynnydd gweinyddol gyflwyno adroddiad i’r canlynol:

- y Cofrestrydd
- credydwyr y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig
- deiliaid unrhyw arwystl nofiol
- unrhyw ymddiriedolwyr ar ran credydwyr gwarantedig y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig

**Datganiad o amgylchiadau**
Dyma grynodeb o asedau, rhwymedigaethau a chredydwyr y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig. Rhaid i’r derbynnydd gweinyddol fynnu cael datganiad o’r fath a phenderfynu pwy ddylai ei baratoi.

Rhaid i'r adroddiad egluro amgylchiadau'r penodiad a'r camau y mae'r derbynnydd gweinyddol yn eu cymryd. Rhaid i'r adroddiad gynnwys hefyd grynodeb o unrhyw 'ddatganiad o amgylchiadau' a baratowyd ar gyfer y derbynnydd gan swyddogion neu weithwyr y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig.

Rhaid i bob derbynnydd anfon cyfrif o'r derbyniadau a'r taliadau ar gyfer 12 mis cyntaf y dderbynyddiaeth at y Cofrestrydd, ac:

- yn achos derbynwyr gweinyddol, bob 12 mis wedyn

- yn achos derbynwyr a rheolwyr, bob 6 mis wedyn

**4. Pa ffurflenni y dylid eu defnyddio?**

Yn sgil gweithredu Rheolau Ansolfedd (Diwygio) 2010, a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2010, bydd Tŷ'r Cwmnïau yn pennu'r ffurflenni ansolfedd canlynol o fewn Rheolau'r Cofrestrydd am y tro cyntaf. Rhaid ffeilio'r ffurflenni isod gyda'r Cofrestrydd ar gyfer pob achos o dderbynyddiaeth.

| Teitl y ffurflen | Rhif |
|---|---|
| Hysbysiad am benodi derbynnydd neu reolwr | LL RM01 |
| Hysbysiad am roi'r gorau i weithredu fel derbynnydd neu reolwr | LL RM02 |
| Datganiad o faterion mewn derbynyddiaeth weinyddol yn sgil adroddiad i'r credydwyr | 3.3 |
| Tystysgrif cyfansoddiad (tystysgrif ddiwygiedig) pwyllgor y credydwyr | 3.4 |
| Adroddiad y derbynnydd gweinyddol am newid yn aelodaeth pwyllgor y credydwyr | 3.5 |
| Crynodeb y derbynnydd neu'r rheolwr neu'r derbynnydd gweinyddol o dderbyniadau a thaliadau | 3.6 |
| Hysbysiad am farwolaeth derbynnydd gweinyddol | 3.7 |
| Hysbysiad am orchymyn i waredu eiddo | 3.8 |
| Adroddiad y derbynnydd gweinyddol | 3.10 |

**Sylwer**: Mae'r ffurflenni hyn ar gael i'w dadlwytho o wefan Tŷ'r Cwmnïau.

## Pennod 5
## Ymddatod gwirfoddol

Ceir dau fath o ymddatod gwirfoddol:

- ymddatod gwirfoddol gan yr aelodau (YGA) - sy'n golygu bod yr aelodau dynodedig wedi gwneud datganiad hydaledd statudol

- ymddatod gwirfoddol gan y credydwyr (YGC) – sy'n golygu nad yw'r aelodau dynodedig wedi gwneud datganiad o'r fath

**1. Pryd gall y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig drefnu YGA?**

Gall hyn ddigwydd lle bo'r aelodau dynodedig yn credu bod y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn hydal.

Rhaid i'r mwyafrif o aelodau dynodedig y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig wneud datganiad hydaledd statudol yn ystod y 5 wythnos cyn y dyddiad pan benderfynodd y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig y dylai gael ei dirwyn i ben.

**2. Beth sydd yn y datganiad?**

Bydd y datganiad statudol yn dweud bod yr aelodau dynodedig wedi ymchwilio'n llawn i faterion y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig ac, ar sail hynny, eu bod o'r farn y bydd modd iddi dalu ei dyledion yn llwyr cyn pen 12 mis ar ôl dechrau'r broses dirwyn i ben. Bydd y datganiad yn cynnwys rhestr o asedau a rhwymedigaethau'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig fel yr oeddent ar y dyddiad ymarferol olaf cyn gwneud y datganiad.

**3. Pryd bydd yr ymddatod yn dechrau o ddifrif?**

Bydd yr ymddatod yn dechrau pan fo'r aelodau'n penderfynu dirwyn y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig i ben. Bydd cytundeb y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig fel arfer yn nodi sut y gellir gwneud penderfyniad o'r fath. Yn niffyg darpariaeth o'r fath, caiff y penderfyniad ei wneud gan fwyafrif o'r aelodau.

**4. Oes rhaid rhoi gwybod i rywun am yr ymddatod gwirfoddol?**

Oes. Rhaid cyhoeddi hysbysiad o'r penderfyniad i ddirwyn y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig i ben yn wirfoddol yn y *Gazette* cyn pen 14 diwrnod ar ôl gwneud y penderfyniad. Rhaid i'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig anfon copi o'r datganiad a'r penderfyniad at y Cofrestrydd cyn pen 15 diwrnod ar ôl i'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig benderfynu y dylai gael ei dirwyn i ben hefyd.

**5. Pryd gall YGC fod yn briodol?**

Gall partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig drefnu YGC pan na all dalu ei dyledion.

**6. Beth sydd rhaid i'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig ei wneud?**

Yr aelodau fydd yn penderfynu nad yw'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn gallu parhau mewn busnes oherwydd ei rhwymedigaethau ac mai'r peth doethaf fyddai ei dirwyn i ben. Bydd cytundeb y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig fel arfer yn nodi sut y gall partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig fynd ati i wneud penderfyniad o'r fath. Yn niffyg darpariaeth o'r fath, caiff y penderfyniad ei wneud gan fwyafrif o'r aelodau.

Rhaid gwneud y canlynol:

- cyhoeddi'r penderfyniad yn y *Gazette* cyn pen 14 diwrnod
- hysbysu'r Cofrestrydd am y penderfyniad cyn pen 15 diwrnod

Rhaid cynnal cyfarfod o'r credydwyr cyn pen 14 diwrnod ar ôl mabwysiadu'r penderfyniad i ddirwyn y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig i ben. Rhaid anfon rhybudd o'r cyfarfod at y credydwyr o leiaf saith diwrnod cyn y cyfarfod. Yn ogystal, rhaid i'r aelodau dynodedig baratoi

datganiad o amgylchiadau i'w drafod yn y cyfarfod, a phenodi un o'u plith i fod yn bresennol a llywyddu'r cyfarfod.

Wrth benodi'r datodydd, rhaid i'r aelodau dynodedig roi datganiad o'r amgylchiadau iddo a chydweithredu ag ef mewn ffyrdd eraill.

**7. Oes rhaid i'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig gyhoeddi rhybudd o'r cyfarfod?**

Oes. Rhaid cyhoeddi rhybudd o'r cyfarfod yn y *Gazette.* Nid oes rhaid i hysbysebu ychwanegol fod trwy hysbysebu mewn papurau newydd erbyn hyn. Mae mathau eraill o hysbysebu yn y cyfryngau os bernir mai dyna sydd fwyaf priodol, ar ddisgresiwn deiliad y swydd.

**8. Beth yw prif ddyletswyddau'r datodydd?**

Penodir y datodydd i ddirwyn materion y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig i ben. Bydd y datodydd yn gwneud hyn drwy grynhoi holl asedau'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig a'u dosbarthu ymhlith ei chredydwyr. Os bydd rhywbeth ar ôl, bydd y datodydd yn ei ddosbarthu ymhlith aelodau'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig.

**9. Oes angen i ddatodydd roi gwybod i rywun am ei benodiad/ei phenodiad?**

Oes. Cyn pen 14 diwrnod ar ôl ei benodi/ei phenodi, rhaid i ddatodydd gyhoeddi hysbysiad o'r penodiad yn y *Gazette* a rhoi gwybod i Dŷ'r Cwmnïau. Os yw'r ymddatod yn wirfoddol, efallai bydd y datodydd hefyd yn gyhoeddi hysbysiad mewn modd arall a gwelai'r datodydd yn dda..

**10. Beth mae'n rhaid i'r datodydd ei anfon i Dŷ'r Cwmnïau?**

Rhaid i'r datodydd anfon datganiad o amgylchiadau ynghyd â'r ffurflen briodol at y Cofrestrydd cyn pen 5 diwrnod busnes ar ôl cyfarfod y credydwyr.

Os dechreuodd yr ymddatod gwirfoddol ar 5 Ebrill 2010 neu cyn hynny, rhaid i'r datodydd anfon datganiad o'r derbyniadau a'r taliadau ar gyfer 12 mis cyntaf yr ymddatod hefyd. Wedi hynny, rhaid anfon datganiadau bob 6 mis nes cwblhau'r broses dirwyn i ben.

Os dechreuodd yr ymddatod gwirfoddol ar 6 Ebrill 2010 neu ar ôl hynny, rhaid i'r datodydd anfon adroddiad y datodydd ar gyfer 12 mis cyntaf yr ymddatod. Wedi hynny, rhaid anfon datganiadau bob 12 mis nes cwblhau'r broses dirwyn i ben.

**11. Oes modd troi YGA yn YGC?**

Oes. Os yw'r datodydd yn penderfynu na fydd y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn gallu talu ei dyledion yn llawn yn ystod y cyfnod a bennir yn natganiad hydaledd statudol yr aelodau dynodedig, rhaid iddo alw cyfarfod o'r credydwyr a'i gynnal cyn pen 28 diwrnod. Daw'r ymddatod yn YGC o ddyddiad y cyfarfod ymlaen.

**12. Beth yw'r gofynion ar gyfer rhoi rhybudd mewn achos o'r fath?**

Rhaid i'r datodydd:

- anfon rhybudd o’r cyfarfod at bob credydwr o leiaf saith diwrnod cyn dyddiad y cyfarfod

- cyhoeddi dyddiad y cyfarfod yn y *Gazette* a dau bapur newydd ym mhrif ardal fusnes y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig

- paratoi datganiad o amgylchiadau i’w drafod yn y cyfarfod. Rhaid anfon copi o’r datganiad at y Cofrestrydd cyn pen 5 diwrnod gwaith ar ôl cynnal y cyfarfod

**13. Beth sy’n digwydd pan gaiff materion y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig eu dirwyn i ben yn llawn?**

Mewn achosion o ymddatod gwirfoddol a ddechreuodd ar 5 Ebrill 2010 neu cyn hynny, bydd y datodydd yn cyflwyno cyfrif i gyfarfod terfynol y credydwyr ac aelodau’r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig. Rhaid iddo roi cyhoeddusrwydd i’r cyfarfod yn y *Gazette* o leiaf fis ymlaen llaw.

Cyn pen wythnos ar ôl y cyfarfod, rhaid i’r datodydd anfon y cyfrif at y Cofrestrydd ar ffurf adroddiad ar y cyfarfod terfynol.

Mewn achosion o ymddatod gwirfoddol a ddechreuodd ar 6 Ebrill 2010 neu ar ôl hynny, bydd y datodydd yn cyflwyno adroddiad llawn i gyfarfod terfynol o gredydwyr ac aelodau’r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig. Rhaid iddo roi cyhoeddusrwydd i’r cyfarfod yn y *Gazette* o leiaf fis ymlaen llaw.

Cyn pen wythnos ar ôl cynnal y cyfarfod, rhaid i’r datodydd anfon yr adroddiad terfynol ar gynnydd at y Cofrestrydd, ynghyd â ffurflen adroddiad ar gyfarfod terfynol.

Oni wna’r llys orchymyn i ohirio diddymu’r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig, caiff ei diddymu 3 mis wedi cofrestru’r adroddiad a’r cyfrif yn Nhŷ’r Cwmnïau.

**14. Pa ffurflenni y dylid eu defnyddio?**

Yn sgil gweithredu Rheolau Ansolfedd (Diwygio) 2010, a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2010, bydd Tŷ’r Cwmnïau yn pennu’r ffurflenni ansolfedd canlynol o fewn Rheolau’r Cofrestrydd, a rhai ohonynt am y tro cyntaf. Rhaid ffeilio’r ffurflenni isod gyda’r Cofrestrydd ym mhob achos o ymddatod gwirfoddol.

Rhaid defnyddio’r ffurflenni hyn gyda’r diwygiadau priodol (os yw’n berthnasol) ar gyfer unrhyw achosion o ymddatod gwirfoddol a ddechreuodd ar 5 Ebrill 2010 neu cyn hynny:

| **Teitl y ffurflen** | **Rhif** |
|---|---|
| Hysbysiad am benodi datodydd o dan drefn dirwyn i ben yn wirfoddol (aelodau neu gredydwyr) | *600* |
| Datganiad o amgylchiadau wrth drosi o drefn ymddatod gwirfoddol gan yr aelodau i ymddatod gwirfoddol gan y credydwyr | 4.18 a 4.20 |

| | |
|---|---|
| Datganiad o amgylchiadau o dan y drefn ymddatod gwirfoddol gan y credydwyr | 4.19 a 4.20 |
| Hysbysiad am ymddiswyddiad datodydd gwirfoddol o dan a171(5) o Ddeddf Ansolfedd 1986 | 4.33 |
| Gorchymyn Llys yn rhoi caniatâd i ddatodydd gwirfoddol ymddiswyddo | 4.35 |
| Tystysgrif diswyddo datodydd gwirfoddol | 4.38 |
| Hysbysiad am roi'r gorau i weithredu fel datodydd gwirfoddol | 4.40 |
| Hysbysiad am farwolaeth datodydd gwirfoddol | 4.44 |
| Hysbysiad am ddatodydd gwirfoddol yn gadael ei swydd | 4.46 |
| Hysbysiad am gyfansoddiad pwyllgor ymddatod | 4.48 |
| Tystysgrif i dystio bod y credydwyr wedi cael eu talu'n llawn | 4.51 |
| Datganiad y datodydd o dderbyniadau a thaliadau | 4.68 |
| Datganiad o hydaledd o dan y drefn dirwyn i ben yn wirfoddol gan yr aelodau sy'n ymgorffori datganiad o'r asedau a'r rhwymedigaethau | 4.70 |
| Adroddiad ar y cyfarfod terfynol o dan y drefn dirwyn i ben yn wirfoddol gan yr aelodau | 4.71 |
| Adroddiad ar y cyfarfod terfynol o dan y drefn dirwyn i ben yn wirfoddol gan y credydwyr | 4.72 |

**Sylwer**: Mae'r ffurflenni hyn ar gael i'w dadlwytho o wefan Tŷ'r Cwmnïau.
Mae ffurflenni 4.18 a 4.19 ar gael o wefan y Gwasanaeth Ansolfedd

**Pennod 6**
**Ymddatod gorfodol**

**1. Beth yw 'ymddatod gorfodol'?**

Caiff partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig ei datod yn orfodol os yw'r llys yn gorchymyn ei dirwyn i ben.

**2. Pa lysoedd all orchymyn ymddatod gorfodol?**

Gall yr Uchel Lys, neu lys sirol sydd â'r awdurdodaeth briodol, orchymyn dirwyn partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig i ben. Gall hyn ddigwydd yn sgil deiseb credydwr neu gredydwyr er enghraifft, ar y sail nad oes modd i'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig dalu ei dyledion.

Ystyrir nad yw partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn gallu talu ei dyledion os bydd, er enghraifft:

- ar y bartneriaeth fwy na £750 i gredydwr
- credydwr yn cyflwyno cais ysgrifenedig i'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn y ffurf benodedig (a elwir yn hawliad statudol – Ffurflen 4.1)
- bod y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn methu â thalu, gwarantu na chytuno i fodloni'r ddyled er boddhad rhesymol y credydwr

Ceir amgylchiadau eraill lle'r ystyrir na all y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig dalu ei dyledion. Darllenwch y ddeddfwriaeth berthnasol.

Gall y llys hefyd orchymyn i'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig gael ei dirwyn i ben yn sgil deiseb:

- y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig ei hun
- un neu ragor o aelodau'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig
- yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesedd a Sgiliau
- yr Awdurdod Ymddgiad Ariannol (gynt, yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol)
- y Derbynnydd Swyddogol.

**3. Oes rhaid cyhoeddi'r ddeiseb?**

Oni bai bod y llys yn rhoi cyfarwyddiadau eraill, rhaid cyhoeddi'r ddeiseb yn y *Gazette.*

**4. Beth fydd yn ymddangos ar gofnod y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn Nhŷ'r Cwmnïau?**

Os bydd y ddeiseb yn llwyddiannus, rhaid i'r Derbynnydd Swyddogol anfon y gorchymyn dirwyn i ben i Dŷ'r Cwmnïau cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl. Caiff ei osod ar gofnod cyhoeddus y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig.

Ni chyflwynir y ddeiseb ei hun i'r Cofrestrydd, felly ni fydd yn ymddangos ar y cofnod cyhoeddus.

**5. Pwy sy'n gweithredu fel datodydd pan wneir gorchymyn i ddirwyn y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig i ben?**

Daw'r Derbynnydd Swyddogol yn ddatodydd pan wneir gorchymyn i ddirwyn partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig i ben, oni bai bod y llys yn gorchymyn fel arall.

**6. Beth yw dyletswyddau'r Derbynnydd Swyddogol fel datodydd?**

Mae gan y Derbynnydd Swyddogol ddyletswydd i archwilio materion y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig ac achosion ei methiant.

Bydd hefyd yn penderfynu a ddylid galw cyfarfodydd o'r credydwyr a'r cyfranwyr (sef, y bobl hynny sy'n atebol i gyfrannu at asedau'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig os caiff ei dirwyn i ben) at ddibenion penodi datodydd yn ei le.

Os yw'n penderfynu peidio â galw cyfarfod, rhaid iddo roi gwybod i'r credydwyr, y cyfranwyr a'r llys am ei benderfyniad.

Ar y llaw arall, os yw'n penderfynu galw cyfarfod, gellir penodi datodydd yn lle'r Derbynnydd Swyddogol. Rhaid i'r datodydd roi gwybod i Dŷ'r Cwmnïau am ei benodiad yn syth.

Os daw swydd y datodydd yn wag unrhyw bryd, daw'r Derbynnydd Swyddogol yn ddatodydd nes y gellir llenwi'r swydd.

**7. Beth sy'n digwydd pan gwblheir y broses dirwyn i ben?**

Pan gaiff Tŷ'r Cwmnïau hysbysiad am gyfarfod terfynol y credydwyr gan y datodydd, neu hysbysiad fod y dirwyn i ben wedi ei gwblhau gan y Derbynnydd Swyddogol, bydd yn ei gofrestru ac yn cyhoeddi'r ffaith ei fod wedi dod i law yn y *Gazette.*

Oni bai bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn cyhoeddi fel arall, caiff y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig ei diddymu 3 mis ar ôl cofrestru'r hysbysiad yn Nhŷ'r Cwmnïau.

Os bydd y Derbynnydd Swyddogol, wrth weithredu fel datodydd, yn fodlon na fydd asedau sylweddadwy'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig (sef yr asedau y gellid eu gwerthu neu gael gwared arnynt er mwyn codi arian) yn diwallu'r treuliau dirwyn i ben ac nad oes angen ymchwilio ymhellach i faterion y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig, gall wneud cais i'r Cofrestrydd am i'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig gael ei diddymu'n gynnar. Caiff y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig ei diddymu 3 mis ar ôl cofrestru'r cais yn Nhŷ'r Cwmnïau.

## Pennod 7
## Gwybodaeth bellach

**1. Ble galla i fynd i gael cymorth?**

Bydd staff Tŷ'r Cwmnïau yng Nghaerdydd yn gallu'ch cynghori ar faterion cyffredinol, ond os ydych chi'n ystyried gweithrediadau ymddatod neu ansolfedd, dylech geisio cyngor ymarferydd ansolfedd neu'r Gwasanaeth Ansolfedd (ffôn Ymholiadau Gwasanaeth Ansolfedd 0845 602 9848).

Gellir gwneud cwynion ynglŷn ag ymddygiad ymarferydd ansolfedd trwyddedig, drwy'r Porth Cwynion unigol. Am fwy o fanylion ewch I'w gwefan.

**2. Sut mae mynd ati i anfon ffurflenni i Dŷ'r Cwmnïau?**

- Dylai dogfennau, gan gynnwys gorchmynion llys, ddangos enw a rhif cofrestru cywir y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig
- Dylech ddarparu dogfennau mewn fformat portread (hynny yw, â'r ymyl byrraf ar draws y brig)

### 3. Sut mae mynd ati i anfon gwybodaeth i Dŷ’r Cwmnïau?

Gallwch chi gyflwyno dogfennau i Dŷ’r Cwmnïau â llaw yn swyddfeydd Caerdydd, Llundain a Chaeredin (yn bersonol neu drwy negesydd), gan gynnwys y tu allan i oriau swyddfa, dros wyliau banc a thros y penwythnos.

Gallwch chi gyflwyno dogfennau hefyd drwy’r post, drwy’r Gwasanaeth Cyfnewid Dogfennau (DX) neu drwy’r Post Cyfreithiol (LP) yn yr Alban. Wrth anfon dogfennau, dylech eu cyfeirio at:

| **Ar gyfer partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig wedi eu corffori yn Lloegr a Chymru:** | **Ar gyfer partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig wedi eu corffori yn yr Alban:** | **Ar gyfer partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig wedi eu corffori yng Ngogledd Iwerddon:** |
|---|---|---|
| Y Cofrestrydd Cwmnïau<br>Tŷ’r Cwmnïau<br>Ffordd y Goron<br>Caerdydd<br>CF14 3UZ<br>**neu**<br>DX33050 Caerdydd 1 | The Registrar of Companies<br>Companies House<br>Fourth Floor<br>Edinburgh Quay 2<br>139 Fountainbridge<br>Edinburgh EH3 9FF<br>**neu**<br>DX ED235 Edinburgh 1<br>**neu**<br>LP – 4 Edinburgh 2 | The Registrar of Companies<br>Companies House<br>Second Floor<br>The Linenhall<br>32-38 Linenhall Street<br>Belfast<br>Northern Ireland<br>BT2 8BG<br>**neu**<br>DX 481 N.R. Belfast 1 |

Os ydych chi’n anfon dogfennau drwy’r post, drwy negesydd neu drwy’r Gwasanaeth Cyfnewid Dogfennau (DX) a’ch bod am gael derbynneb, bydd Tŷ’r Cwmnïau yn darparu nodyn cydnabod os byddwch chi’n amgáu copi o’ch llythyr eglurhaol gydag amlen â stamp a’ch cyfeiriad arni. Byddwn ni’n rhoi cod bar ar eich llythyr a fydd yn cynnwys y dyddiad y daeth y wybodaeth i law, ac yn dychwelyd y copi yn eich amlen.

**Sylwer:** nid yw cydnabyddiaeth bod eich gwybodaeth wedi dod i law yn golygu bod dogfen wedi cael ei derbyn i’w chofrestru yn Nhŷ’r Cwmnïau.

**Sylwer**: Nid yw Tŷ’r Cwmnïau yn derbyn dogfennau statudol drwy ffacs, PDF (ac eithrio copïau ardystiedig o offerynnau arwystl sy’n cael eu ffeilio’n electronig) neu e-bost.

### 4. Ble galla i gael ffurflenni a chanllawiau?

Mae hwn yn un o gyfres o lyfrynnau gan Dŷ’r Cwmnïau sy’n rhoi canllawiau syml ar y Ddeddf Cwmnïau.

Mae <u>ffurflenni statudol</u> a <u>chanllawiau</u> ar gael, yn rhad ac am ddim, gan Dŷ’r Cwmnïau. Y ffordd gyflymaf i’w cael yw drwy ein gwefan neu drwy ffonio 0303 1234 500.

Gellir cael ffurflenni gan ddogfenwyr y gyfraith cwmnïau, cyfrifwyr, cyfreithwyr ac asiantau ffurfio – ceir rhestr o gyfeiriadau'r bobl hyn mewn llyfrau ffôn ar gyfer busnesau.